Newyddion Archifdy Ceredigion Mawrth 1999

Dyma ail argraffiad Cylchlythyr Archifdy Ceredigion. Byddem yn hoffi yn fawr iawn pe baech yn diolch i bawb a wnaeth danysgrifio, a gobeithio y gwnewch fwynhau cynnwys yr argraffiad hwn.

Ymchwilwyr Newydd

Dangosodd tri mis cyntaf 1999 gynnydd yn nifer yr ymchwilwyr yn y swyddfa, yn enwedig ymysg myfyrwyr. Mae'n ddiddorol nodi yn ychwanegol at y myfyrwyr hanes gallwn ddisgwyl myfyrwyr daearyddiaeth, anthropoleg, y gyfraith ac astudiaethau theatr i ddefnyddio'r swyddfa ar gyfer defnyddiau. Roedd yn rhaid i un grŵp o fyfyrwyr ddod o hyd i ffyrdd o gyflwyno agweddau o hanes cymdeithasol Aberystwyth drwy ddrama, gan dreulio oriau hapus yn edrych ar gofnodion o'r dref yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Materion Cadwraeth

Yng nghanol mis Ionawr daeth cwmni cadwraeth i roi amcangyfrif o gost diogelu ein casgliad o gofnodion addysg sydd yn cynnwys cofnodlyfrau, cofrestrau mynediad a chofnodion gweinyddol y rhan fwyaf o ysgolion cynradd a nifer o ysgolion uwchradd yn y sir. Mae nifer o lyfrau heb fod mewn cyflwr gwael; gydag eraill mae'r rhwymo wedi dioddef gyda blynyddoedd o'u defnyddio mewn ysgolion. Roedd yr amcangyfrifon yn amrywio rhwng £40 a £450 y gyfrol, sydd yn golygu llawer iawn o arian mewn casgliad o oddeutu mil o gyfrolau. Unwaith yn yr archifdy defnyddir dogfennau storio fel hyn ar gyfartaledd llai nag unwaith y flwyddyn. Mewn un ffordd mae hyn yn anffodus iawn gan y gellir dod o hyd i wybodaeth fendigedig mewn coflyfrau, ond mae llai o ddefnydd yn golygu bod cyfrolau yn para yn hwy. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ddogfennau o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif yn cynnwys lefel o asid yn y papur ac y mae hyn yn y pen draw yn gwneud i'r tudalennau droi yn frau ac yn frown. Hyd yn oed os caiff y dogfennau eu storio yn ofalus a heb eu cyffwrdd byth mae hyn yn achosi dirywiad dros amser. Mae'n rhaid delio â'r mater o gadw mewn modd priodol. Weithiau gofynnir i ni pam nad ydym wedi microffilmio casgliadau o'r fath. Yr ateb yw fod microffilmio yn helpu'r broblem mewn un ffordd yn unig, ac erys yr anawsterau (rhai ariannol yn bennaf!) o ddiogelu'r ddogfen wreiddiol.

Yr ydym wedi prynu rhagor o "bocedi" polyester tryloyw ar gyfer storio eitemau brau. Mae'r rhain yn arbennig o dda ar gyfer dogfennau un daflen, y gellir eu darllen a'u trin heb achosi rhagor o ddifrod.

Sgyrsiau a darlithoedd ac arddangosfeydd.

Mae'r archifydd, Helen Palmer, wedi bod yn siarad â nifer o sefydliadau lleol gan gynnwys Sefydliad y Merched Llanilar, Eglwys Fach a Threfeurig, Clwb Cyfeillgarwch Llanychaearn, Grŵp Ymddeoliad Penrhyncoch, Grŵp Merched y Brifysgol a Grŵp Ymddeoliad Waun Fawr. Mae'r achlysuron hyn bob tro yn hwyl i'r archifydd a (gobeithio) y gynulleidfa. Digwyddiadau gyda the a bisgedi ar eu hôl yw'r math gorau, er

bod gennyf atgofion melys o gacen *ymlaen llaw* ar o leiaf un achlysur yn ddiweddar. O safbwynt staff yr archifdy mae'r sgyrsiau hyn a'r arddangosfeydd y ceisiwn eu cyflwyno yn rheolaidd yn rhoi esgus ardderchog i ni edrych ar ein cofnodion a darllen drwyddynt. Gyda 'r agwedd weinyddol feichus o'r proffesiwn archifau yn cynyddu o hyd, mae'n beth da gwneud yr amser i astudio'r dogfennau eu hunain.

Yr ydym yn awr ar ein hail arddangosfa y flwyddyn hon. Arddangosfeydd bychain yw'r rhain mewn casys ar ledlawr Swyddfeydd y Sir lle lleolir yr Archifau. Roedd yr arddangosfa gyntaf yn cynnwys eitemau a newyddion o 1899 (gweler erthygl Glenys isod!) ac mae'r arddangosfa gyfredol ar y Gwasanaeth Bad Achub a Sefydliad Brenhinol Cenedlaethol y Bad Achub sydd yn dathlu ei ben-blwydd yn 175 mlwydd oed eleni.

Mae'r erthygl yn y cylchlythyr hwn gan Glenys McBurnie. Mae'n adlewyrchu ei dau hoffter mawr - cerdded yng nghefn gwlad ac ymchwilio i hanes lleol!

Derbyniadau dethol diweddar

Der. 1117	Hanes Hafod gyda dogfennu a baratowyd ac a adawyd gan Jenny McVe o Ymddiriedolaeth yr Hafod
Der.1118	Map Degwm a dosbarthiad plwyf Silian (1845)*, dosbarthiad degwm ar gyfer Llanbedr (1839 & 1873) a dosbarthiad degwm wedi ei newid ar
gyfer	Llanwenog (1852) *heb fod ar gael ar hyn o bryd am resymau cadwraeth
Der.1121	Catalogau arwerthiant ar gyfer peth o gynnwys Plas yr Hafod (1939) a Nanteos (1957).
Der.1124	Coflyfr Ysgol Gynradd y Borth 1993-1996.

Mae'n rhaid crybwyll hefyd **Casgliad yr Amgueddfa** o eitemau a drosglwyddwyd o Amgueddfa Geredigion. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o ddogfennau ardderchog ac maent yn cael eu rhestru wrth fod amser yn caniatau hynny. Rhestrwyd 74 0 eitemau cyn belled, a chymerodd *hynny*'r rhan fwyaf o'r penwythnos! Mae yna rai llyfrau cyfrifon a llyfrau dydd diddorol, sydd yn cynnwys "John Edwards a'i fab, Penygroes, Llanfihangel" sydd yn rhoi mesuriadau ei gwsmeriaid ar gyfer ei fusnes teiliwr (1893-1910). Felly beth oedd maint brest dynion yn Sir Aberteifi ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg? Dewch i weld dros eich hun!

LLWYBRAU CYFARWYDD

Ychydig a wyddwn ein bod yn prynu darn bach o hanes lleol pan brynom eiddo ym Mlaenplwyf ym 1993; nid hyd y soniodd ychydig bobl inni brynu "y capel bach". Gan fod yr eiddo yn cynnwys dau fwthyn bychan gyda gerddi ar y blaen, twlc, ychydig siediau, a chae o oddeutu erw i'r ochr, nid oedd yn debyg i gapel o gwbl.

Unwaith yr oedd yr eiddo yn berchen i ni phenderfynais wneud peth ymchwil yn Archifdy Ceredigion. Yn gyntaf ceisiais ddod o hyd i'r eiddo yn ffurflenni'r cyfrifiad ar gyfer plwyf Llanychaearn ar gyfer 1841, ond heb lwc. Felly fy nhasg nesaf oedd dod o hyd i'r lleoliad ar fap. Roedd hyn yn allweddol, gan y dangoswyd yr eiddo ar yr argraffiad 1af o'r map Arolwg Ordnans (*circa* 1832) fel "Blaenplwyf": 'roedd yr enw wedi newid dros y blynyddoedd. Gwnaethpwyd hyn yn fwy eglur pan dderbyniais lungopi o erthygl ar Fethodistiaeth gynnar yn Sir Aberteifi a ysgrifennwyd ym 1859 gan William Rowlands, "Cwrt-y-Cwm". Bu'r gynulleidfa yn cynnal gwasanaethau mewn bwthyn bychan o'r enw "Corn" o 1803 hyd at 1818. Ar yr adeg hon cysylltwyd â stiward "Nanteos", sef Mr Armstrong, gyda golwg ar brydlesu darn o dir fel y gallent adeiladu capel. Yn ôl William Rowlands, cytunodd Cyrnol Powell, perchennog "Nanteos"a chynnig erw o dir am rent o un gini'r flwyddyn. Ym 1819 dechreuwyd adeiladu'r capel, gan grefftwyr lleol, gyda rhoddion o'r gymuned yn gwneud y gwaith yn bosibl. Galwyd y capel yn "Blaenplwyf" gan mai dyma'r adeilad cyntaf ar y briffordd i Aberystwyth ym mhentref Llanychaearn, y plwyf nesaf yw Llanddeiniol. Yn ddiweddarach mabwysiadwyd yr enw gan bentref "Pont Llanio" ar ôl i gapel mwy o faint cael ei adeiladu yno ym 1880; daeth hyn yn angenrheidiol wrth i'r gynulleidfa ehangu yn ystod y diwygiad crefyddol.

Gan wybod iddo fod yn gapel, gallwn edrych ar y ficroffilm o gofnodion bedyddio anghydffurfiol ar gyfer "Blaenplwyf". Cedwir cofnodion gwreiddiol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus yn Kew, ond mae Archifdy Ceredigion yn dal copïau ohonynt hyd at 1837.Cofnodwyd y bedydd cyntaf ar Fawrth 8fed 1808:

> Joel Rowlands, mab William(ffermwr) a Margaret Rowlands o "Cwrt-y-Cwm".

Mannau eraill a enwyd oedd Trefedlyn, Tanffordd, Lletyoen, Rhwylas, Ffoslas, Pencwnddu (Llanddeiniol), Ffynoncapel (Llanilar), Llainwen, Rhydygwin, Glanrhos a Rhydgaled.

Tua diwedd y ffilm gwelais y cofnod canlynol:

> Mawrth25ain 1835
> William mab Joel Rowlands (ffermwr) a'i wraig Mary o Aberbrwinen.

Dyma gofnod cenhedlaeth gyfan o deulu a oedd â chysylltiadau cryf iawn gyda'r "capel bach". Ceir hanes bywyd y William Rowlands gyntaf mewn cyhoeddiad o'r enw

Enwogion Sir Aberteifi. Ganwyd ef ym Mlaenplwyf ym 1778, ac roedd yn ffigwr pwysig ym mywyd crefyddol yr ardal.

Yr oeddwn wedyn yn medru parhau i chwilota yn y cyfrifiad unwaith eto er mwyn gweld pwy oedd yn byw yn "Blaenplwyf" yn ystod y blynyddoedd 1841-1891. Yr oeddwn wrth fy modd gweld bod yr eiddo wedi ei drawsnewid yn dy erbyn 1881, ar ôl rhoi'r gorau i'w ddefnyddio fel capel, gyda'r teulu Stephens yn byw yno; parhaodd yr eiddo ym meddiant y teulu hwn hyd 1993, pan brynwyd yr eiddo gennym ni. Medrais hefyd ymgynghori â rhai Cofrestrau Etholiadol, un ar gyfer 1918, rhai yn y 1950au, gyda'r mwyafrif yn y 1960au a hyd at y presennol. Ffynhonnell ddefnyddiol arall oedd y Ddeddf Gwerthuso Tir 1910, sydd yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â phwy oedd perchennog pob eiddo a phwy oedd y deiliad tŷ.

Mae nifer o lwybrau troed yn arwain o'r tŷ ac yn mynd â chi i lawr at yr arfordir. Byddwch yn mynd heibio i fferm fechan o'r enw "Mynachty'r Graig" ac yna ymlaen at "Monk's Cave". Yr enwau hyn yw'r olion olaf fod y darn tir hwn yn eiddo ar un adeg i fynachlog "Ystrad Fflur".

****

Yr wyf yn ymweld ag Abaty Ystrad Fflur ym Mhontrhydfendigaid yn fynych gan ei fod yn un o'r mannau mwyaf heddychlon y gellir ei ddychmygu, ac yn ffodus gwahoddwyd fi i aros yn y pentref am ychydig ddiwrnodau y Nadolig diwethaf. Fel arfer aethom ar bererindod i'r fynwent a'r fynachlog, ond y tro hwn penderfynom fynd am dro tuag at "Pantyfedwen", a oedd ar un adeg yn gartref i Syr David James y dyngarwr a'r Fonesig James, sydd â chofeb iddynt yn y fynwent gerllaw. Wrth basio un goeden arbennig arhosodd gwr fy ffrind gan ddweud "Maent yn galw hon yn y goeden grogi, ond nid oes neb yn gwybod y stori". Fel bodau dynol yr oeddem i gyd â diddordeb yn hyn, ond aethom ymlaen ar ein taith heb feddwl rhagor amdano. Hynny yw hyd i mi agor copi o'r Cambrian News ar gyfer 1899, pan euthum yn ôl i'r gwaith ar ôl gwyliau'r Nadolig. Yr oeddwn yn edrych am wybodaeth ar gyfer arddangosfa Blwyddyn Newydd a phenderfynais edrych am erthyglau o bapurau newydd misoedd cyntaf 1899. Dyma'r cofnod cyntaf a welais ar gyfer Mai 5ed 1899.

Pontrhydfendigaid

Digwyddiad Trist
Ar fore Sul Ebrill 30ain, darganfuwyd corff William Roberts, mab hynaf Mr Richard Roberts, "Towy-fechan" yn crogi o goeden dila ar ffordd a oedd yn arwain o'r Abaty i "Bantyfedwen". Bu'r bachgen druan i ffwrdd ar y nos Sadwrn yn edrych am ddafad strae, ar ffordd Tregaron. Daethpwyd o hyd i'r ddafad ac ar ôl ymweld â Thregaron dechreuodd am gartref. Ymddengys ei bod hi'n hwyr, ac ar y ffordd adref, drwy orffwylledd neu arall, cyflawnodd hunanladdiad drwy grogi ei hun. Yn ffyddlon iddo hyd angau ac wedi hynny arhosodd ei ddau gi ffyddlon gan warchod corff eu meistr a chafodd swyddog yr heddlu gryn drafferth yn eu cadw draw o gorff eu meistr wrth geisio ei dorri i lawr. Daeth diflastod dros

y pentref yn sgil y newyddion trist gan ei fod yn adnabyddus i bawb. Bachgen tawel didramgwydd ydoedd ac yr oedd yn gwneud yn dda mewn treialon cŵn defaid. Cynhaliwyd cwest ar y Dydd Llun, pan ddywedwyd fod Roberts yn eithaf sobr am unarddeg nos Sadwrn ac nid oedd unrhyw beth od yn ei ymarweddiad... Y dyfarniad oedd i'r ymadawedig grogi ei hun tra o'i iawn bwyll.
(Cambrian News Mai 5ed 1899)

Yng nghofnodion plwyf Ystrad Fflur deuthum o hyd i'r cofnod claddu canlynol:

Mai 3ydd 1899
William Roberts - Towy - 30 oed

Mae ei rieni hefyd wedi eu claddu yno.

O'r cyfrifiad ar gyfer 1881 ar gyfer plwyf sifil Caron Uwch Clawdd, darganfûm fod William yn un o saith plentyn o leiaf, yr ieuengaf ymddwy oed ar y pryd a'r hynaf yn 19 oed.

Can mlynedd yn ddiweddarach, drwy hap a damwain, ail ddarganfuwyd stori'r "goeden grogi".

****

Mae llwybrau troed o gwmpas fy nghartref yn cysylltu bwthyn a ffermydd gyda'r hyn a oedd yn gapel ar un adeg. Gellir dod o hyd i gychwyn nifer o lwybrau troed gydag ychydig waith ditectif. Gwelir un llwybr troed o'r fath, ychydig filltiroedd i lawr yr arfordir, yng "Nghwm Mabws", Llanrhystud, ger Mabws Hall.

Rhoddodd y coflyfr ar gyfer Ysgol Brynherbert gliw i mi ynglŷn â'i fodolaeth. Cedwir nifer o goflyfrau a chofrestrau mynediad ar gyfer ysgolion Ceredigion yn yr Archifdy, yn ogystal ag yng Nghofnodion y Pwyllgor Addysg a rhai cynlluniau ysgol.

Fel pob coflyfr ysgol, mae ysgol'Brynherbert' yn cynnwys cofnodion dyddiol gan y Prifathro parthed rhediad yr ysgol o ddydd i ddydd. Yn rhai o'r cofnodion hyn sylwais ar enwau ffermydd y gwn amdanynt cryn bellter o'r ysgol:

Tachwedd 13 1891
" Mae Catherine Jane Jones, Mabwys Newydd yn dioddef o diptheria".

Chwefror 8 1909
" Dechreuodd Mary Jones fel athrawes Atodol, a drosglwyddwyd o ysgol 'Gofadail'. Derbyniwyd 2 ferch o fferm 'Tynbeulu', un yn 7 oed a'r llall yn 6 oed, dyma eu tro cyntaf mewn ysgol ac i gymysgu â phlant".

Efallai fod y plant hyn yn defnyddio'r llwybr o 'Gwm Mabws' i fynd i'r ysgol gan fod y daith ar y briffordd yn llawer hwy. Byddai dilyn llwybr byrrach i'w groesawi adeg tywydd gwael. Byddai rhai rhieni wedi dewis anfon eu plant i 'Frynherbert' er bod ysgol 'Llanrhystud' efallai yn llawer agosach. Mewn un cofnod gwnaethpwyd yn eglur gan y prifathro bod ysgol 'Brynherbert' yn well nag "ysgol Llanrhystud mewn arithmetig".

> 21 Ebrill 1902
> "Derbyniwyd 2 blentyn o Lanrhystud, James a Hannah Mary Williams. Maent yn ychydig mwy araf nag yw ein plant ni mewn arithmetig."

Yr oeddwn yn synnu gweld yr enwau hyn, gan mai Hannah Mary oedd fy mam-gu a James oedd fy hen ewythr. Yr oeddent yn byw ar 'Rhiwbwys', unwaith eto ychydig bellter o'r ysgol. Clywodd fy nhad y stori fod ei fam-gu wedi symud y plant o ysgol 'Llanrhystud' i 'Frynherbert'; yn awr yr oedd gennym brawf ysgrifenedig. Fodd bynnag, yr hanes yn y teulu yw fod yna wrthdaro rhwng gyda'r prifathro a bod hyn wedi achosi iddynt symud.

Ymddengys i'r ysgol gael amser ansefydlog rhwng 1890 a 1900. Yn ystod y cyfnod hwn cafodd yr ysgol nid llai nac wyth gwahanol prifathro, ac yr oedd ganddynt i gyd broblemau yn ceisio perswadio plant i ddod i'r ysgol. Salwch yn fynych oedd y rheswm dros bresenoldeb gwael; diptheria, y dwymyn goch, llid ar yr ysgyfaint, a'r frech goch oedd rhai o'r anhwylderau a enwyd. Rhai o'r rhesymau a roddwyd dros blant yn absennol o'r ysgol oedd diwrnod golchi, lladd mochyn, ogedu'r caeau ceirch, casglu tatws, ffeiriau hurio, Eisteddfodau ac amrywiol wasanaethau crefyddol, heb sôn am dywydd gwael a fyddai yn aml yn rhwystr ar siwrnai hir. Roedd y prifathro yn amlwg yn anfodlon yn y cofnod canlynol:

> " Presenoldeb yn waeth na ddoe ac yn llawer gwaeth y prynhawn yma oherwydd yr arwerthiant yn 'Rhosolchfa' i fyny ar y rhiw. Mae'r llwythau o'r bryn i ffwrdd yn yr arwerthiant heddiw".
>
> (Coflyfr Brynherbert, Hydref 22 1907)

Ni allai hyd yn oed bresenoldeb 'Aletheon' y dyn cryf ddenu'r plant i ffwrdd o'u tasgau cyn Nadolig:

"Nid oedd presenoldeb cystal, 30 yn bresennol, 5 bachgen adref yn helpu i ladd a phluo'r gwyddau Nadolig. Galwodd Pencampwr y Dynion Cryf sydd yn mynd o gwmpas pob ysgol y prynhawn hwn, a bydd yn perfformio rhai triciau a champau clyfar yn y bore." (Coflyfr Brynherbert, 22 Rhagfyr 1908)

Tybed beth oedd y "llwythau o'r bryn" yn ei feddwl o hyn!

Roedd gwell presenoldeb dau ddiwrnod yn ddiweddarach oherwydd priodas leol:

"Presenoldeb da oherwydd bod priodas yn cael ei chynnal ar y fferm ger yr ysgol, caniatawyd plant i gael amser chwarae ychwanegol er mwyn gweld y parti priodas yn dychwelyd. Cyflwynwyd oren i'r plant i gyd a gwahoddwyd rhai ohonynt i'r brecwast. Gyda fy nghaniatâd daeth y parti priodas i'r ysgol i gyflwyno orenau tra bo'r plant yn eu tro yn eu diddanu gyda chân."
(Coflyfr Ysgol Brynherbert, 23 Rhagfyr 1909)

Rwy'n siwr bod y brifathrawes yn dymuno bod ganddi gyflenwad di bendraw o orenau, er mwyn cael ffigurau presenoldeb da.
A fyddai plant heddiw yn bodloni mor hawdd?

Sefydlwyd ysgol nos addawol ym 1896 ym 'Mrynherbert'. Yn ystod nosweithiau tywyll y gaeaf deuai myfyrwyr dros bedwar ar ddeg oed ar hyd y ffyrdd a'r llwybrau sydd yn arwain at yr ysgol:

"Dechreuais i James Davies, athro sydd wedi derbyn tystysgrif (King's College, Llundain) Ysgol Nos yma ar Ragfyr 4ydd 1896 am 7.30 p.m. Daeth pymtheg myfyriwr i'r agoriad. Y wers gyntaf a roddwyd oedd cyfieithu Cymraeg, yn ôl yr amserlen".
(Coflyfr Nos Ysgol Brynherbert)
(4 Rhagfyr 1896)

Ym 1897 derbyniodd yr ysgol adroddiad gwych gan Arolygwyr Ei Mawrhydi:

"Roedd llawer yn bresennol yn yr ysgol nos hon ag ystyried pa mor ynysig yw'r ardal, ac yr oedd llawr o waith da yn cael ei wneud yno yn ystod y sesiynau. Dengys y nifer gymharol fawr a oedd yn bresennol y gwerth a roddai disgyblion ar yr ysgol nos hon".

Oherwydd salwch, ac ymrwymiadau eraill, gostyngodd y nifer, a chaewyd yr ysgol ar ôl tair blynedd, ym 1899.

Er hynny ym 1913 roedd yna ymgais arall i redeg ysgol nos, ond nid heb beth anesmwythder ar y dechrau:

"Gan na chynhaliwyd ysgol o'r fath ers 1899 datganodd nifer bod cywilydd arnynt ddangos eu hanwybodaeth ynglŷn â'r pynciau".

Parhaodd y broblem hon, ymysg eraill, tan y caewyd yr ysgol nos ym 1914. Mae'r cofnodion canlynol yn cyfleu darlun byw o'r ychydig fisoedd anodd hynny:

"Bu ychydig fechgyn ifanc o'r ardal yn achosi trwbl ar nos Wener ac yn achosi pryder drwy gydol y nos. Daethant eto neithiwr ond ni achoswyd trwbl gan iddynt gael eu rhybuddio ynglŷn â'r canlyniadau".
(Rhagfyr 10 1913)

'.....Dim ond 3 gwraig yn unig a ymddangosodd.....Daeth tri gŏr ifanc i mewn i'r adeilad ond teimlent yn rhy swil i ddod i mewn pan oedd y nifer mor fach."
(Ionawr 7 1914)

"Noson stormus a gwlyb a dim ond 4 gwraig a ddaeth ynghyd er bod un o'r bechgyn y tu allan ond nid oedd yn ddigon dewr i ddod i mewn."
(Chwefror 12 1914)

".....daeth 2 o'r bechgyn cyn bell â'r ysgol ond nid oeddent yn fodlon dod i mewn."
(Chwefror 16 1914)

"Dim bechgyn yn bresennol heno eto."
(Chwefror 23 1914)

"Dau fachgen yn bresennol heno, dim bechgyn wedi bod yn yr ysgol ers Chwefror 18fed ond maent yn ymgynnull y tu allan, un neu ddau ohonynt yn teimlo'n ddigon dewr i ddod i mewn i'r ysgol."
(Mawrth 2 1914)

Mae'r coflyfr hwn yn rhoi darlun bendigedig o'r merched yn eistedd yn daclus y tu mewn yn aros i'r gwersi i ddechrau, gyda'r bechgyn swil yn ystelcian y tu allan i'r drws!

****

Y symbyliad ar gyfer y gwaith ymchwil gogyfer y detholiadau uchod fu teithiau cerdded a fwynheais gyda ffrindiau a theulu, yn y wlad ger fy nghartref. Mae rhywbeth diddorol i'w weld bob tro wrth fynd am dro; ac wedi i'r daith ddod i ben mae'r mwynhad yn parhau, fel y cwestiynau a godir yn sgil y profiad. Pam y crewyd y llwybr arbennig hwn? Llwybrau a grewyd er mwyn cysylltu'r mannau a oedd bwysicaf ym mywydau pobl - cartrefi, ysgolion, capeli neu eglwysi. Gobeithio i mi fedru rhoi golwg ar rai o'r llwybrau y bum yn eu harchwilio a hanes y llwybrau y bum yn cerdded ar eu hyn yng Ngheredigion.

Rwy'n ofni na fyddwch yn dod o hyd i stoc o orenau yn Archifdy Ceredigion, ond fe welwch gyfoeth o ddogfennau diddorol yn ymwneud â'r sir.*

* A rhai bananas (anfwytadwy) yn y blanhigfa bananas wrth gwrs! Gol.